Llywodraeth Cymru
Welsh Government

AT: Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru

ODDI WRTH: Huw Morris, Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Eich Cyf: PA317/MM/hcj

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Mr Crompton

**Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o drefniadau gweinyddu cyllid myfyrwyr Cymru - argymhellion**

Mae'n bleser gennyf ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd ganddo o drefniadau gweinyddu cyllid myfyrwyr Cymru. Yng Nghymru, rydym yn falch o gynnig y pecyn cymorth mwyaf hael i fyfyrwyr yn y DU, ac yn ymfalchïo yn y gwasanaeth y mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn ei roi i'n cwsmeriaid yng Nghymru.

Rydym yn ddiolchgar am sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol sy'n cydnabod ein gwaith yn y maes hwn. Mae ein hymateb i bob un o'r argymhellion i'w weld isod.

## Monitro perfformiad

**Argymhelliad 1** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gwella'r modd y mae'n monitro perfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr trwy fynd ati'n rheolaidd i adolygu data ar lefel Cymru sy'n ymwneud â'r holl fesurau blynyddol, a thrwy adrodd yn rheolaidd ar ddarlun cynhwysfawr o berfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr tuag i fyny trwy strwythur llywodraethu Llywodraeth Cymru. Dylai hyn oleuo ystyriaethau ehangach sy'n gofyn a yw'r pecyn o gymorth ariannol yn cyrraedd ei nodau hirdymor ar gyfer myfyrwyr ac addysg uwch.*

## Ymateb: Derbyn

Gwelodd Llywodraeth Cymru nad oedd lle penodol i gofnodi perfformiad cyffredinol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn erbyn y targedau a nodwyd yn ei lythyr blynyddol am flaenoriaethau ac adnoddau, ac mae wedi gweithio gyda'r Cwmni dros y 12 mis diwethaf i ddatblygu dangosfwrdd adrodd ar gyfer y Cwmni. Mae'r dangosfwrdd hwn yn rhoi cyfle i swyddogion graffu ar ddata ar lefel Cymru sy'n ymwneud â'r holl

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fesurau perfformiad a nodwyd yn y llythyr blynyddol am flaenoriaethau ac adnoddau, gan ei gwneud yn bosibl i ymchwilio i'r data yn ôl yr angen.  Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cyflwyno data'r dangosfwrdd i Fwrdd y Cwmni ar lefel y cwmni ac ar lefel y domisil, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd hwn. Mae swyddogaethau ychwanegol sy'n toglo domisiliau ar y dangosfwrdd yn ei gwneud yn bosibl i gymharu a monitro tueddiadau perfformiad ar draws domisiliau.

Er mwyn gwella'r ffordd y caiff data ar lefel Cymru eu monitro, ac i sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu'n briodol drwy strwythurau llywodraethu Llywodraeth Cymru, caiff yr adroddiadau dangosfwrdd hyn ac unrhyw bapurau perthnasol o gyfarfodydd y Bwrdd eu trafod fel mater o drefn yng nghyfarfod chwarterol Bwrdd Cyfarwyddwyr Cyllid Myfyrwyr Llywodraeth Cymru, ac mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd hwn wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r eitem newydd hon. Bydd y sianel ar gyfer uwchgyfeirio pryderon i Bwyllgor Archwilio, Risgiau a Sicrwydd Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen yn parhau ar waith.

Mae eitem newydd, sef ‘monitro perfformiad Cyllid Myfyrwyr Cymru i ddarparu proses sy'n gywir y tro cyntaf ac yn canolbwyntio ar gwsmeriaid’, wedi cael ei hychwanegu i Adnodd Adrodd am Wybodaeth Busnes Llywodraeth Cymru. Mae'r adnodd hwn yn darparu ffordd syml a chyson o gofnodi a monitro gwybodaeth yn erbyn ymrwymiadau a blaenoriaethau, ac adrodd amdani, i bob lefel o Lywodraeth Cymru.

Ni fydd y dangosfwrdd na'r cyfleusterau adrodd newydd yn cymryd lle'r adolygiadau a'r cyfarfodydd perfformiad a gynhelir ar lefel weithredol. Bydd swyddogion yn parhau i fonitro materion gweithredol o ddydd i ddydd, gan uwchgyfeirio pryderon drwy ddefnyddio'r strwythurau llywodraethu a nodwyd uchod lle y bo angen. Drwy hyn, mae modd i'r gwasanaeth fod yn rhagweithiol a chymryd camau cynnar pan fo angen.

At hynny, mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi cyflwyno nifer o ddiwygiadau i Gymru yn ystod y blynyddoedd diweddar. Rhoddwyd y newidiadau mwyaf sylweddol ac ystyrlon ar waith i'r cynnig cymorth i fyfyrwyr yn dilyn Adolygiad Diamond. Roedd pecynnau cyllid cymorth i fyfyrwyr a ddeilliodd o'r newidiadau hyn ar gael gyntaf i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Rydym yn cynnal cynllun gwireddu manteision, ac wedi sefydlu proses ar gyfer monitro a diweddaru'r cynllun i sicrhau bod y newidiadau a roddwyd ar waith yn cael yr effaith a ragwelwyd. Gwnaethom hefyd gyhoeddi Adolygiad gan Gymheiriaid o'r cynigion ar gyfer gwerthuso Diwygiadau Diamond i Gymorth i Fyfyrwyr. Drwy gwblhau'r gwerthusiad hwn, byddwn yn dod i ddeall a yw'r newidiadau wedi llwyddo i sicrhau'r amcanion tymor hwy ar gyfer myfyrwyr a'r sector addysg uwch. Bydd gwaith ar y gwerthusiad ffurfiol yn dechrau yn nes ymlaen eleni. Byddwn yn parhau i fodelu anghenion ariannol myfyrwyr yn flynyddol i sicrhau bod ein pecyn ariannol yn addas i'r diben.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Datblygu cynaliadwy**

**Argymhelliad 2** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a all wneud mwy i gymhwyso'r pum ffordd o weithio a ddisgwylir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i wella'r modd y gweinyddir cyllid myfyrwyr a'i goruchwyliaeth ar y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Er enghraifft, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gynnwys myfyrwyr yn gynharach yn y broses benderfynu, a sut y bydd yn adolygu ei pherthynas â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gyson i sicrhau bod y model gweinyddu'n dal i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r ddogfen Fframwaith y mae'n rhaid i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ei dilyn wrth weithredu yn adlewyrchu nifer o'r ffyrdd o weithio a ddisgwylir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy'r ddogfen hon, ar y cyd â gofynion ein llythyr blynyddol am flaenoriaethau ac adnoddau a llythyr Cadeirydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, rydym yn hyderus bod y Cwmni yn gweithio yn unol â'n hegwyddorion datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried yn rheolaidd sut y gall y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr gyfrannu rhagor.

Mae'r argymhelliad yn nodi'n benodol yr angen i gynnwys myfyrwyr yn y gwaith o gynllunio prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi sefydlu Panel Cwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr yn ddiweddar, gyda'r nod o gyflawni hyn. Mae'r panel yn cynnwys 16 o aelodau gyda chynrychiolwyr o bob domisil, gan gynnwys darpar fyfyrwyr, myfyrwyr presennol a myfyrwyr sy'n ad-dalu benthyciadau ar hyn o bryd, a bydd yn gweithredu yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach. Bydd gwaith y panel yn ychwanegu at wybodaeth y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am brofiad cwsmeriaid, a bydd yn llywio a herio strategaeth profiad cwsmeriaid y Cwmni wrth iddo geisio gwireddu'r uchelgais o ddarparu profiad rhagorol i gwsmeriaid.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i ailwampio'r arolygon o brofiad a bodlonrwydd cwsmeriaid er mwyn sicrhau bod yr adborth sy'n dod i law yn helpu i lywio a chynllunio newidiadau i brosesau gweinyddu, gan ychwanegu at y wybodaeth sydd ar gael i gefnogi'r prosesau hyn a'r gwasanaethau a ddefnyddir gennym i ddarparu ein cynhyrchion ariannol. Rhoddir arolygon i gwsmeriaid ar bob cam o'u profiad â'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y caiff adborth ar amrywiaeth eang o brofiadau ei gasglu. Drwy symleiddio'r holiaduron, gwelwyd bod mwy o gwsmeriaid yn cymryd rhan, a bod mwy o ddata ansoddol yn dod i law.

Pan fyddwn yn ystyried gwneud newidiadau sylweddol i'n pecynnau cymorth i fyfyrwyr, ein polisïau a/neu'r rheoliadau sy'n sail iddynt, ein polisi yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Pan fyddwn yn lansio ymgynghoriad newydd, caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan, a byddwn hefyd yn mynd ati i gysylltu â'n grwpiau rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r sefydliad i annog pobl i ymateb iddo. Mae panel



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cwsmeriaid y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn creu ffordd newydd o ymgysylltu'n uniongyrchol â'r myfyrwyr rydym yn ceisio gwelliannau a newidiadau ar eu cyfer. Rydym yn edrych ymlaen at y cyfleodd a fydd yn codi yn sgil y panel cwsmeriaid hwn. Cyn y caiff unrhyw bolisi neu newid ei rhoi ar waith, cynhelir asesiad effaith i sicrhau ein bod yn bodloni ein hymrwymiadau tuag at Ddatblygu Cynaliadwy, ac yn rhagori arnynt lle y bo modd, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n partneriaid yn GIG Cymru ac ym mhob un o'n meysydd busnes Ysgolion a'r Cwricwlwm i sicrhau bod unrhyw gymorth Bwrsariaeth Cymru, a weinyddir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, yn ystyried y meysydd pwnc â blaenoriaeth presennol a'r rhai newydd, ac yn diwallu anghenion y myfyrwyr hynny sy'n dewis gweithio yn y sectorau heriol hyn.

Byddwn yn ystyried y buddion sy'n dod i fyfyrwyr Cymru yn sgil rhaglen Evolve y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wrth i'r gwaith trawsnewid ddod i ben yn ystod y blynyddoedd i ddod, gan geisio sicrhau bob amser ein bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i weinyddu'r cymorth sydd ei angen ar fyfyrwyr. Yn fwy penodol, bydd y cynlluniau ynghylch gwerthuso diwygiadau Diamond i gymorth i fyfyrwyr yn ystyried sut y gellir tynnu sylw at Ddatblygu Cynaliadwy a'r amcanion llesiant ehangach a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Cynllunio ar gyfer olyniaeth a chydnerthedd**

**Argymhelliad 3** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu arferion gweithio, trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth a swyddi gwag yn ei Thîm Noddi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r ddibyniaeth ar nifer fach o staff.*

**Ymateb: Derbyn**

Caiff strwythur Tîm Noddi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ei adolygu yn ystod y 12 mis nesaf i sicrhau bod lefelau staffio digonol a phriodol yn ogystal â threfniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ar waith. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad y tîm hwn yn unig sy'n gyfrifol am y gwaith o ddarparu a monitro ein pecynnau cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau Cyllid Myfyrwyr Cymru yn effeithiol. Rydym yn cydnabod bod nifer bach o staff yn ymgysylltu â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr bob dydd i drafod materion gweithredol ar lefel myfyrwyr drwy drefniadau cydweithio sefydledig a rhagorol, ond mae hefyd strwythur ehangach ar lefel yr Is-adran a'r Grŵp sy'n gwneud gwaith dadansoddi a gwaith ar gydymffurfio yn ogystal ag adolygu rheoliadau a pholisïau gydag uwch-gydweithwyr y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr fel mater o drefn.  Serch bod y tîm yn fach, ac er gwaethaf yr heriau a godwyd yn sgil y trefniadau gweithio o bell yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae bellach yn haws cysylltu â'r bobl hynny sy'n hanfodol i'r gwaith o gyflawni gwasanaethau Cyllid Myfyrwyr Cymru ac amcanion y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, ac mae'n parhau i fynd yn haws. Bydd cyfle i ddod â meysydd eraill o Lywodraeth Cymru sydd â phrofiad ynghyd er mwyn cefnogi'r Tîm Noddi a'i helpu i ddatblygu fel y bo angen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cofion cynnes



Huw Morris

**Cyfarwyddwr**

**Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.